



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 Rhif 2304 (Cy.229)

2002 No. 2304 (W.229)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Gorchymyn Rheoli Clefydau
(Mesurau Dros Dro) (Cymru)
(Rhif2) 2002**

**The Disease Control (Interim
Measures) (Wales) (No. 2) Order
2002**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn dirymu a disodli (gyda diwygiadau) Orchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/280 (Cy.32), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/1038 (Cy.110), 2002/1356 (Cy.132) a 2002/2060 (Cy.209).

This Order, which applies to Wales only revokes and replaces (with amendments) the Disease Control (Interim Measures) (Wales) Order 2002 (S.I. 2002/280 (W.32), as amended by S.I. 2002/1038 (W.110), 2002/1356 (W.132) and 2002/2060 (W.209).

Daw'r Gorchymyn i rym ar 6 Medi 2002 a bydd ei effaith yn darfod ar 1 Chwefror 2003. (Byddai effaith y Gorchymyn Rheoli Clefydau, petai heb gael ei ddirymu, wedi darfod ar 1 Rhagfyr 2002).

The Order comes into force on 6th September 2002 and will cease to have effect on 1st February 2003. (The Disease Control Order if it had not been revoked would have ceased to have effect on 1st December 2002).

Mae'r Gorchymyn yn parhau i ddarparu ar gyfer mesurau dros dro i reoli clefydau. Mae'n darparu ar gyfer cyfyngiadau ar symud anifeiliaid (erthyglau 3 a 4) ac yn benodol -

The Order continues to provide for temporary disease control measures. It provides for movement restrictions on animals (articles 3 and 4) and in particular-

- (a) mae'n darparu y bydd yn anghyfreithlon symud unrhyw anifail ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu arolygydd a benodwyd at ddibenion Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (1981 p.22) (erthygl 3(1)(a)); a
- (b) yn gosod cyfnod segur o 20 diwrnod (y "gofyniad segura") ar ôl symud anifeiliaid i safle pan na chaniateir i unrhyw anifail gael ei symud i ffwrdd o'r safle hwnnw, yn ddarostyngedig i esemptiadau mewn perthynas ag amryw o symudiadau penodedig (erthygl 3(2) a (3)).

- (a) provides that it shall be unlawful to move any animal unless under the authority of a licence issued by the National Assembly for Wales, the Secretary of State or an inspector appointed for the purposes of the Animal Health Act 1981 (1981 c.22) (article 3(1)(a)); and
- (b) imposes a 20 day standstill period (the "standstill requirement") following the movement of animals on to premises during which no animal may be moved off those premises, subject to exemptions in respect of various specified movements (article 3(2) and(3)).

Y prif ddiwygiad yw cynnwys esemptiadau ychwanegol (yn erthyglau 3(3)(e) ac (f)) mewn perthynas â'r gofyniad segura sy'n golygu na fydd -

- (a) symudiadau gwartheg a defaid sydd wedi'u bwriadu ar gyfer bridio cyn y diweddaraf o'r canlynol, sef 1 Chwefror 2003 neu dri mis ar ôl iddynt gyrraedd unrhyw safle; a
- (b) dychweliad hyrddod bridio sydd heb eu gwerthu o'r farchnad i unrhyw safle,

yn arwain at ofyniad segura ar y safle y maent wedi'u symud iddo cyhyd ag y bod amodau penodol yn cael eu bodloni. Y prif amod yw bod y gwartheg neu'r defaid bridio neu'r hyrddod bridio sydd heb eu gwerthu yn cael eu rhoi mewn cyfleuster ynysu ("cyfleuster ynysu ar gyfer bridio") yn union ar ôl iddynt gyrraedd a'u bod yn cael eu cadw yno, ynghyd ag unrhyw anifeiliaid eraill sydd eisoes yn y cyfleuster ynysu hwnnw ac unrhyw anifeiliaid y daethpwyd â hwy i mewn iddo o rywle arall ar y safle, tan ddechrau'r 21ain diwrnod ar ôl y diwrnod yr oeddent wedi cyrraedd yno.

Mae'r gofynion manwl sydd i'w bodloni a'u dilyn mewn perthynas â'r cyfleuster ynysu ar gyfer bridio er mwyn i'r esemptiad segura newydd fod ar gael wedi'u nodi yn erthygl 3(9) a Rhan I o'r Atodlen. Yn ychwanegol, cyn bod modd defnyddio'r cyfleuster ynysu ar gyfer bridio at ddibenion yr esemptiad newydd, rhaid iddo fod wedi'i archwilio gan filfeddyg cymwysedig y mae'n ofynnol iddo gwblhau adroddiad ar ei arolygiad i raddau helaeth ar y ffurf a nodir yn Rhan II o'r Atodlen a'i anfon i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn y cyfeiriad a ddangosir ar y ffurflen (erthygl 3(9)(b) ac (c)). Mae'n ofynnol hefyd i'r anifeiliaid yn y cyfleuster ynysu ar gyfer bridio gael eu harolygu gan filfeddyg cymwysedig yn ystod y cyfnod sy'n dechrau ar y 14eg diwrnod ac sy'n dod i ben ar yr 20fed diwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd yr anifeiliaid y safle ac mae'n ofynnol i'r cyfleuster gael ei arolygu hefyd gan y milfeddyg yn ystod yr un cyfnod.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn parhau i wneud y canlynol:

- (i) gwahardd symud anifeiliaid i ladd-dy ac eithrio os yw hynny er mwyn eu cigydda o fewn 48 awr ar ôl iddynt gyrraedd yno (erthygl 4);
- (ii) darparu system ganiatadau ar gyfer hela gyda chŵn (erthygl 5);
- (iii) nodi darpariaethau cyffredinol mewn perthynas â thrwyddedau, awdurdodiadau, caniatadau a hysbysiadau a ddyroddir o dan y Gorchymyn (erthyglau 6 ac 8);
- (iv) nodi trefniadau mewn perthynas â newidiadau o ran meddiannaeth safle (erthygl 7);
- (v) nodi pwerau swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol ac arolygwyr awdurdodau lleol (erthygl 9);

The principal amendment is the inclusion of additional exemptions (at articles 3(3)(g) and (h)) in relation to the standstill requirement whereby -

- (a) movements of cattle and sheep intended for breeding before the later of 1st February 2003 or three months after their arrival on any premises; and
- (b) the return from market to any premises of unsold breeding rams,

will not give rise to a standstill requirement on the premises onto which they are moved provided certain conditions are met. The main condition is that the breeding cattle or sheep or unsold breeding rams are placed in an isolation facility (a "breeding isolation facility") immediately on their arrival and that they are kept there, together with any other animals already in that isolation facility and any animals brought into it from elsewhere on the premises, until the start of the 21st day after the day of their arrival.

Detailed requirements to be met and observed in relation to the breeding isolation facility in order for the new standstill exemption to be available are set out in article 3(9) and Part I of the Schedule. In addition, before the breeding isolation facility can be used for the purposes of the new exemption, it must have been inspected by a qualified veterinary surgeon who is required to complete a report on his inspection substantially in the form set out in Part II of the Schedule and send it to the Department for Environment, Food and Rural Affairs at the address shown on the form (article 3(9)(b) and (c)). The animals in the breeding isolation facility are also required to be inspected by a qualified veterinary surgeon during the period starting with the 14th day and ending with the 20th day after the day of the animals arriving on the premises and the facility is also required to be inspected by the veterinary surgeon during the same period.

The Order also continues to :

- (i) prohibit the movement of animals to a slaughterhouse except where this is for the purpose of their being slaughtered within 48 hours of their arrival there (article 4);
- (ii) provide a permit system for hunting with dogs (article 5);
- (iii) set out general provisions in relation to licences, authorisations, permits and notices issued under the Order (articles 6 and 8);
- (iv) set out arrangements in relation to changes of occupation of premises (article 7);
- (v) set out powers of officers of the National Assembly for Wales and the Secretary of State and of local authority inspectors (article 9);

- (vi) datgan bod toriadau cyfraith penodol yn dramgwyddau o dan y Gorchymyn (erthygl 10); a
- (vii) gorfodi'r Gorchymyn (erthygl 11).

Mae'r Gorchymyn hefyd yn diwygio (yn erthygl 13) Orchymyn Crynadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/283, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/1358 ac O.S. 2002/2060) drwy newid y dyddiad y bydd effaith y gorchymyn hwnnw yn darfod o 1 Rhagfyr 2002 i 1 Chwefror 2003.

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn.

- (vi) declare certain contraventions to be offences under the Order (article 10); and
- (vii) provide for enforcement of the Order (article 11).

The Order also (at article 13) amends the Animal Gatherings (Interim Measures) (Wales) Order 2002 (S.I. 2002/283, as amended by S.I. 2002/1358 and S.I. 2002/2060) by changing the date on which that order will cease to have effect from 1st December 2002 to 1st February 2003.

A regulatory appraisal has not been prepared for this Order.

2002 Rhif 2304 (Cy.229)**2002 No. 2304 (W.229)****ANIFEILIAID, CYMRU****ANIMALS, WALES****IECHYD ANIFEILIAID****ANIMAL HEALTH****Gorchymyn Rheoli Clefydau
(Mesurau Dros Dro) (Cymru)
(Rhif2) 2002****The Disease Control (Interim
Measures) (Wales) (No. 2) Order
2002***Wedi'i wneud am 11:29 a.m. ar 5 Medi 2002**Made at 11:29 a.m. on 5th September 2002**Yn dod i rym 6 Medi 2002**Coming into force 6th September 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, sy'n gweithredu ar y cyd wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt o dan adrannau 1, 7, 8(1), 83(2) ac 87(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(a) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

The National Assembly for Wales and the Secretary of State, acting jointly in exercise of the powers conferred on them under sections 1, 7, 8(1), 83(2) and 87(2) of the Animal Health Act 1981(a) make the following Order:

Teitl, cymhwyso, cychwyn a darfod**Title, application, commencement and cessation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002; mae'n gymwys i Gymru, daw i rym ar 6 Medi 2002 a bydd ei effaith yn darfod ar 1 Chwefror 2003.

1. This Order may be cited as the Disease Control (Interim Measures) (Wales) (No.2) Order 2002; it applies to Wales, shall come into force on 6th September 2002 and shall cease to have effect on 1st February 2003.

Dehongli**Interpretation****2. Yn y Gorchymyn hwn-****2. In this Order-**

ystyr "anifeiliaid" ("*animals*") yw gwartheg, (ac eithrio buail a iacod), ceirw, geifr, defaid ac anifeiliaid o deulu'r mochyn;

"animals" ("*anifeiliaid*") means cattle (excluding bison and yak), deer, goats, sheep, and swine;

ystyr "canolfan gasglu" ("*collecting centre*") yw safle sy'n cael ei ddefnyddio fel canolfan

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Animal Health Act 1981;

(a) 1981 c.22. *Gweler* adran 86(1) i gael y diffiniadau o "the Ministers" a "the Minister". Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban mewn perthynas â Chymru, i'r Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ymhellach wedyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

(a) 1981 c.22. *See* section 86(1) for the definitions of "the Ministers" and "the Minister". Functions of "the Ministers", so far as exercisable by the Secretary of State for Wales in relation to Wales were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672); functions of "the Ministers", so far as exercisable by the Secretary of State for Scotland in relation to Wales, were transferred to the Minister of Agriculture, Fisheries and Food by the Transfer of Functions (Agriculture and Food) Order 1999 (S.I. 1999/3141). The functions of the Minister of Agriculture, Fisheries and Food were then further transferred to the Secretary of State by the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food (Dissolution) Order 2002 (S.I. 2002/794).

hanner-ffordd ar gyfer derbyn anifeiliaid y bwriedir eu symud i rywle arall ac mae'n cynnwys unrhyw le a ddefnyddir, boed fel marchnad neu fel arall, ar gyfer gwerthu neu fasnachu anifeiliaid ond dim ond os bwriedir i'r anifeiliaid sy'n cael eu gwerthu neu eu masnachu gael eu cigyddu ar unwaith wedi hynny;

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw unrhyw berson sydd â gofal a rheolaeth dros anifeiliad hyd yn oed dros dro ac, at ddibenion erthygl 6(6)(a), yn cynnwys unrhyw berson sy'n cludo'r anifeiliaid;

mae i "cyfleuster ynysu ar gyfer bridio" ("*breeding isolation facility*") yr ystyr a briodolir iddo yn erthygl 3(3)(e)(i);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981;

ystyr "diheintio" ("*disinfect*") yw diheintio â diheintydd a gymeradwyir;

ystyr "diheintydd a gymeradwyir" ("*approved disinfectant*") yw diheintydd a restrir yn Atodlen 1 i Orchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwyir) 1978(a) fel un a gymeradwyir i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â Gorchymynion Traed a'r Genau;

ystyr "gorchymyn ardal a reolir" ("*controlled area order*") yw unrhyw orchymyn datganiadol a wneir o dan erthygl 30 o Orchymyn Clwy'r Traed a'r Genau 1983(b);

ystyr "grŵp meddiannaeth unigol" ("*sole occupancy group*") yw unrhyw grŵp o safleoedd y mae awdurdod wedi'i roi gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn caniatáu symudiadau rhwng pob un o'r safleoedd yn y grŵp;

mae i "Gweinidogion yr Alban" yr ystyr a roddir i "*Scottish Ministers*" yn adran 44 o Ddeddf yr Alban 1998(c);

"approved disinfectant" ("*dihentydd a gymeradwyir*") means a disinfectant listed in schedule 1 to the Diseases of Animals (Approved Disinfectants) Order 1978(a), as being approved for use in respect of Foot-and-Mouth Disease Orders;

"breeding isolation facility" ("*cyfleuster ynysu ar gyfer bridio*") has the meaning assigned to it in article 3(3)(g)(i);

"Cattle Identification Regulations" ("*Rheoliadau Adnabod Gwartheg*") means the Cattle Identification Regulations 1998(b);

"cattle passport" ("*pasbort gwartheg*") has the meaning it is given in the Cattle Identification Regulations save that it shall not include a calf passport as defined in those Regulations;

"collecting centre" ("*canolfan gasglu*") means premises used for the intermediate reception of animals intended to be moved elsewhere and includes any place used, whether as a market or otherwise, for the sale or trading of animals but only where the animals being sold or traded are intended for immediate slaughter thereafter;

"controlled area order" ("*gorchymyn ardal a reolir*") means any declaratory order made under article 30 of the Foot-and-Mouth Disease Order 1983(c);

"CPH number" ("*rhif daliad*" and "*rhif y daliad*") means the farm holding number assigned from time to time to any premises or part of any premises by the National Assembly for Wales;

"disinfect" ("*diheintio*") means disinfect with an approved disinfectant;

"hunting" ("*hela*") means the use of hounds, beagles or other dogs for the purpose of hunting or coursing any deer, fox, mink, hare or rabbit or for hunting any drag or other trail;

(a) O.S. 1978/32 y mae diwygiadau perthnasol wedi eu gwneud iddo gan O.S. 1999/919 ac, mewn perthynas â Chymru, gan O.S. 2001/641.

(b) O.S. 1983/1950, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1993/3119, O.S. 1995/2922 ac fel y'i diwygiwyd ymhellach, mewn perthynas â Chymru, gan O.S. 2001/572 (Cy. 26), O.S. 2001/658 (Cy. 33), O.S. 2001/968 (Cy. 46), O.S. 2001/1033 (Cy. 47) (a ddiwygiwyd ei hun gan O.S. 2001/1234 (Cy. 67), O.S. 2001/1406 (Cy. 93), O.S. 2001/1509 (Cy. 106), O.S. 2001/1874 (Cy.134), O.S. 2001/2236 (Cy. 162), O.S. 2001/2813 (Cy. 242), O.S. 2001/2981 (Cy. 248), O.S. 2001/3145 (Cy. 260), O.S. 2001/3706 (Cy. 303), ac O.S. 2001/4009 (Cy. 335).

(c) 1998 p.46.

(a) S.I. 1978/32 to which relevant amendments have been made by S.I. 1999/919 and, as regards Wales, by S.I.2001/641.

(b) S.I. 1998/871, as amended by S.I. 1998/1796, S.I. 1998/2969, S.I. 1999/1339 and as regards Wales by S.I. 2001/2360.

(c) S.I. 1983/1950, as amended by S.I. 1993/3119, S.I. 1995/2922 and further amended, as regards Wales, by S.I. 2001/572 (W.26), S.I. 2001/658 (W.33), S.I. 2001/968 (W.46), S.I. 2001/1033 (W.47) (itself amended by S.I. 2001/1234 (W.67)), S.I. 2001/1406 (W.93), S.I. 2001/1509 (W.106), S.I. 2001/1874 (W.134), S.I. 2001/2236 (W.162), S.I. 2001/2813(W.242), S.I. 2001/2981 (W.248), S.I. 2001/3145 (W.260), S.I. 2001/3706 (W.303), and S.I. 2001/4009 (W.335).

ystyr "hawl gofrestredig i gomin" ("*registered right of common*") yw hawl i gomin a gofrestrowyd o dan Ddeddf Cofrestru Cominoedd 1965(a);

ystyr "hela" ("*hunting*") yw defnyddio helgwn, beglgwn neu gŵn eraill, er mwyn hela neu gwrsio unrhyw garw, llwynog, minc, ysgyfarnog neu gwningen neu er mwyn hela ar drywydd unrhyw abwyd neu ar drywydd arall; mae i "lladd-dy" yr ystyr a roddir i "*slaughterhouse*" yn y Rheoliadau Cig Ffres (Hylendid ac Archwilio) 1995(b);

mae i "Marc S" ("*S Mark*") yr un ystyr ag sydd iddo yng Ngorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002;

ystyr "milfeddyg cymwysedig" ("*qualified veterinary surgeon*") yw cymrawd neu aelod o Goleg Brenhinol y Milfeddygon;

mae i "pasbort gwartheg" yr ystyr a roddir i "*cattle passport*" yn y Rheoliadau Adnabod Gwartheg ond nid yw'n cynnwys pasbort lloi fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau hynny;

ystyr "Rheoliadau Adnabod Gwartheg" ("*Cattle Identification Regulations*") yw Rheoliadau Adnabod Gwartheg 1998(c);

mae i "rhif adnabod unigol" yr un ystyr ag "*individual identification number*" yng Ngorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002(d);

ystyr "rhif daliad" a "rhif y daliad" ("*CPH number*") yw'r rhif daliad fferm a neilltuir o dro i dro i unrhyw safle neu ran o unrhyw safle gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

mae "safle" ("*premises*") yn cynnwys tir, gydag adeiladau neu hebddynt;

mae "tir" ("*land*") yn cynnwys tir comin neu dir sydd heb ei amgáu;

ystyr "tir tac" ("*tack land*") yw tir yr aethpwyd ag anifeiliaid sy'n perthyn i rywun arall iddo er mwyn eu porthi neu eu pori am dâl gan borfelwr;

mae "triniaeth filfeddygol" ("*veterinary treatment*") yn cynnwys, yn achos geifr, casglu semen; ac

"individual identification number" ("*rhif adnabod unigol*") has the same meaning as in the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (Wales) Order 2002(a);

"keeper" ("*ceidwad*") means any person having care and control of animals even on a temporary basis and includes, for the purposes of article 6(6)(a), any person transporting the animals;

"land" ("*tir*") includes common or unenclosed land;

"premises" ("*safle*") includes land, with or without buildings;

"qualified veterinary surgeon" ("*milfeddyg cymwysedig*") means a fellow or member of the Royal College of Veterinary Surgeons;

"registered right of common" ("*hawl gofrestredig i gomin*") means a right of common registered under the Commons Registration Act 1965(b);

"S Mark" ("*Marc S*") has the same meaning as in the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (Wales) Order 2002;

"Scottish Ministers" ("*Gweinidogion yr Alban*") has the meaning it is given in section 44 of the Scotland Act 1998(c);

"slaughterhouse" ("*lladd-dy*") has the meaning it is given in the Fresh Meat (Hygiene and Inspection) Regulations 1995(d);

"sole occupancy group" ("*grŵp meddianaeth unigol*") means any group of premises in relation to which an authority has been issued by the Secretary of State permitting movements between each of the premises in the group;

"tack land" ("*tir tac*") means land on to which animals belonging to another have been taken to be fed or pastured for reward by an agister; and

"veterinary treatment" ("*triniaeth filfeddygol*") includes, in the case of goats, the collection of semen.

(a) 1965 p.64.

(b) O.S. 1995/539, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2002/118.

(c) O.S. 1998/871, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/1796, O.S. 1998/2969, O.S. 1999/1339 ac mewn perthynas â Chymru gan O.S. 2001/2360.

(d) O.S. 2002/1357 (Cy.133).

(a) S.I. 2002/1357 (W.133).

(b) 1965 c. 64.

(c) 1998 c.46.

(d) S.I. 1995/539, as last amended by S.I. 2002/118.

Cyfyngiadau ar symud anifeiliaid

3.-(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol yr erthygl hon, ni chaiff neb symud anifail o unrhyw safle (y cyfeirir ato yn yr erthygl hon fel y "safle tarddiad") oni bai fod y gofynion canlynol yn cael eu bodloni-

- (a) mae'r symudiad yn cael ei wneud o dan awdurdod trwydded a ddyroddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu arolygydd ac yn unol â'r amodau ynddi; a
- (b) nid oes unrhyw anifail wedi'i symud i'r safle tarddiad (neu safle arall yn yr un grŵp meddiannaeth unigol) yn ystod y cyfnod o 20 diwrnod cyn y diwrnod y mae'r anifail a grybwyllwyd gyntaf i'w symud (a'r cyfnod hwnnw yn un y cyfeirir ato yn yr erthygl hon fel "y cyfnod segur").

(2) Ni fydd y gofyniad a gynhwysir ym mharagraff (1)(b) o'r erthygl hon yn gymwys-

- (a) os yw'r safle tarddiad yn farchnad, canolfan gasglu, canolfan ffrwythloni artiffisial, neu le ar gyfer triniaeth filfeddygol;
- (b) os yw'r symudiad yn-
 - (i) symudiad mochyn
 - (aa) fel y cyfeirir ato yn erthygl 8(3)(b) o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) 1995(a); neu
 - (bb) i farchnad ar gyfer moch y bwriedir eu cigydda ar unwaith;
 - (ii) symudiad anifail yn uniongyrchol i ladd-dy, neu i ganolfan gasglu ar gyfer anifeiliaid y bwriedir eu cigydda ar unwaith, ar yr amod yn yr achos olaf -
 - (aa) nad yw safle'r ganolfan gasglu wedi'i ddefnyddio ac na fydd yn cael ei ddefnyddio ar yr un diwrnod ar gyfer sioe neu arddangosfa neu ar gyfer gwerthu neu fasnachu anifeiliaid at unrhyw ddiben heblaw eu cigydda ar unwaith; a
 - (bb) bod pob anifail sy'n cael ei symud i'r ganolfan gasglu yn cael ei symud oddi yno yn uniongyrchol i ladd-dy;
 - (iii) symudiad llo sy'n llai na 30 diwrnod oed (y dyroddwyd pasbort gwartheg ar ei gyfer ac y mae tagiau clustiau wedi'u doddi arno yn unol ag erthygl 3(3) o'r Rheoliadau Adnabod Gwartheg) o safle tarddiad a'r safle hwnnw oedd naill ai'r safle lle cafodd y llo ei eni neu safle arall yn yr un grŵp meddiannaeth unigol, ac eithrio na fydd yr esemptiad hwn yn gymwys-
 - (aa) os yw unrhyw anifail wedi'i symud yn

Restrictions on the movement of animals

3.-(1) Subject to the following provisions of this article, no person shall move an animal from any premises (in this article referred to as the "premises of origin") unless the following requirements are met-

- (a) the movement is made under the authority of a licence issued by the National Assembly for Wales, the Secretary of State or an inspector and in accordance with the conditions thereof; and
- (b) no animal has been moved on to the premises of origin (or other premises in the same sole occupancy group) during the period of 20 days before the day on which the first mentioned animal is to be moved (such period being referred to in this article as "the standstill period").

(2) The requirement contained in paragraph (1)(b) shall not apply-

- (a) if the premises of origin are a market, collecting centre, artificial insemination centre, or place for veterinary treatment;
- (b) if the movement is-
 - (i) of a pig-
 - (aa) as referred to in article 8(3)(b) of the Pigs (Records, Identification and Movement) Order 1995(a); or
 - (bb) to a market for pigs intended for immediate slaughter;
 - (ii) of an animal direct to a slaughterhouse, or to a collecting centre for animals intended for immediate slaughter, provided that in the latter case -
 - (aa) the collecting centre premises have not been and will not be used on the same day for a show or exhibition or for the sale or trading of animals otherwise than for immediate slaughter; and
 - (bb) all animals moved to the collecting centre are moved from there direct to a slaughterhouse;
- (iii) of a calf less than 30 days old (for which a cattle passport has been issued and to which ear tags have been applied in accordance with article 3(3) of the Cattle Identification Regulations) from premises of origin which are either the premises on which the calf was born or other premises in the same sole occupancy group, save that this exemption shall not apply if-
 - (aa) any animal has been moved during the

(a) O.S. 1995/11, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1995/2922 ac, mewn perthynas â Chymru, gan O.S. 2001/2662 ac O.S. 2002/281.

(a) S.I. 1995/11, as amended by S.I. 1995/2922 and, as regards Wales, by S.I. 2001/2662 and S.I. 2002/281.

- ystod y cyfnod segur yn uniongyrchol o farchnad i'r safle tarddiad neu i safle arall yn yr un grŵp meddiannaeth unigol;
- (bb)os yw'r llo yn cael ei symud i ganolfan gasglu neu farchnad; neu
- (cc)os yw'r llo yn cael ei symud i sioe neu arddangosfa;
- (iv) symudiad oen neu fyn sy'n llai na 7 diwrnod oed o safle tarddiad a'r safle hwnnw yw naill ai'r safle lle cafodd ei eni neu safle arall yn yr un grŵp meddiannaeth unigol i unrhyw safle arall nad yw'n bellach na 10 cilometr ar hyd y ffordd o'r safle tarddiad os maethu'r oen neu'r myn hwnnw yw diben y symudiad hwnnw;
- (v) dychweliad dafad o dir tac i'r safle y cafodd ei symud ohono yn wreiddiol neu i safle arall yn yr un grŵp meddiannaeth unigol ar yr amod bod y tir tac wedi'i reoli ar wahân i weddill unrhyw safle yr oedd yn rhan ohono ar bob adeg yn ystod y cyfnod yr oedd y ddfad yno a bod gan y tir tac hwnnw rif daliad ar wahân;
- (vi) symudiad anifail rhwng safle mewn grŵp meddiannaeth unigol yn unol ag awdurdod a ddyroddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol;
- (vii) symudiad anifail i sioe neu arddangosfa o sioe neu arddangosfa arall;
- (viii) symudiad anifail i sioe neu arddangosfa, heblaw o ddigwyddiad arall o'r fath neu o dan yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (x), ar yr amod ei fod wedi'i ynysu am yr 20 diwrnod cyn dyddiad y symud o bob anifail arall ar y safle tarddiad ac unrhyw safle arall yn yr un grŵp meddiannaeth unigol a'i fod wedi'i nodi, wedi'i farcio neu wedi'i dagio -
- (aa) yn achos gwartheg yn unol â gofynion y Rheoliadau Adnabod Gwartheg;
- (bb) yn achos dafad neu afr â rhif adnabod unigol; neu
- (cc) yn achos carw yn unol â gofynion Gorchymyn Darfodedigaeth (Ceirw) 1989(a);
- (ix) symudiad anifail i sioe neu arddangosfa, o safle y mae wedi'i symud iddo o sioe neu arddangosfa arall, ar yr amod nad oes unrhyw anifail arall wedi'i symud i'r safle hwnnw (neu safle arall yn yr un grŵp meddiannaeth unigol) yn ystod y cyfnod o 20 diwrnod cyn y diwrnod y mae'r anifail a grybwyllwyd gyntaf i fod i gael ei symud;
- standstill period direct from a market on to the premises of origin or other premises in the same sole occupancy group;
- (bb) the calf is being moved to a collecting centre or market; or
- (cc) the calf is being moved to a show or exhibition;
- (iv) of a lamb or kid less than 7 days old from premises of origin which are either the premises on which it was born or other premises in the same sole occupancy group to any other premises not more than 10 kilometres by road from the premises of origin, where this is for the purpose of fostering that lamb or kid;
- (v) the return from tack land of a sheep to the premises from which it was originally moved or to other premises in the same sole occupancy group provided that the tack land was managed separately from and had a different CPH number from the remainder of any premises of which it was a part at all times during the period the sheep was there;
- (vi) of an animal between premises in a sole occupancy group in accordance with an authority issued by the National Assembly for Wales or the Secretary of State;
- (vii) of an animal to a show or exhibition from another show or exhibition;
- (viii) of an animal to a show or exhibition, otherwise than from another such event or in the circumstances referred to in paragraph (x), provided it has been isolated for the 20 days preceding the day of the movement from all other animals on the premises of origin and any other premises in the same sole occupancy group and has been identified, marked or tagged -
- (aa) in the case of cattle in accordance with the requirements of the Cattle Identification Regulations;
- (bb) in the case of a sheep or goat with an individual identification number; or
- (cc) in the case of a deer in accordance with the requirements of the Tuberculosis (Deer) Order 1989(a);
- (ix) of an animal to a show or exhibition from premises to which it has been moved from another show or exhibition, providing no other animal has been moved onto those premises (or other premises in the same sole occupancy group) during the period of 20 days before the day on which the first mentioned animal is to be moved;

(a) O.S. 1989/878, y gwnaed diwygiadau perthnasol iddo gan O.S. 1993/2010.

(a) S.I. 1989/878, to which relevant amendments are made by S.I. 1993/2010.

- (x) symudiad anifail o sioe neu arddangosfa i unrhyw le heblaw sioe neu arddangosfa arall ar yr amod mai yn ystod yr 20 diwrnod ar ôl y symudiad o'r sioe neu'r arddangosfa -
- (aa) nad yw'n cael ei symud o'r safle newydd ac eithrio i sioe neu arddangosfa arall; a
- (bb) ei fod yn cael ei ynysu oddi wrth bob anifail arall tra bydd ar y safle newydd;
- (xi) symudiad gwartheg o safle tarddiad o dan amgylchiadau -
- (aa) lle'r oedd yr unig symudiad anifeiliaid i'r safle tarddiad yn symudiad llo llai na 30 diwrnod oed a brynwyd o'r safle lle cafodd ei eni neu o safle arall yn yr un grŵp meddiannaeth unigol;
- (bb) lle mae'r safle tarddiad wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio fel uned magu lloi arbenigol drwy hysbysiad a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol; ac
- (cc) lle dyroddwyd pasbortau gwartheg ar gyfer y gwartheg sydd i'w symud a lle cawsant eu tagio yn unol â'r Rheoliadau Adnabod Gwartheg;
- (xii) symudiad anifail i'w allforio'n uniongyrchol neu i ganolfan gasglu neu ganolfan gynnull a gymeradwywyd o dan reoliad 12(2) o Reoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) 2000(a) cyn yr allforio hwnnw;
- (xiii) symudiad anifail sydd wedi'i fewnforio i'r Deyrnas Unedig yn uniongyrchol i unrhyw safle o'i bwynt mynediad i'r Deyrnas Unedig; neu
- (xiv) symudiad anifail rhwng tir y mae gan berchennog neu geidwad yr anifail hawl gofrestrdedig i gomin drosto ac
- (aa) safle ym meddiannaeth perchennog neu geidwad yr anifail ac y mae'r hawl gofrestrdedig i gomin yn cael ei harfer fel rheol mewn perthynas ag ef; neu
- (bb) safle ym meddiannaeth unrhyw berson arall y mae ganddo hawl gofrestrdedig i gomin dros y tir hwnnw ac y mae'r hawl gofrestrdedig i gomin yn cael ei harfer fel rheol mewn perthynas ag ef;
- (xv) symudiad anifail rhwng safle ym meddiannaeth perchennog neu geidwad yr anifail ac y mae hawl gofrestrdedig i gomin dros dir yn cael ei harfer fel rheol mewn perthynas ag ef a safle ym meddiannaeth unrhyw berson arall a chanddo hawl
- (x) of an animal from a show or exhibition to anywhere other than another show or exhibition provided that for the 20 days following the movement from the show or exhibition -
- (aa) it is not moved from the new premises except to another show or exhibition; and
- (bb) while on the new premises it is isolated from all other animals;
- (xi) of cattle from premises of origin in circumstances where -
- (aa) the only movement of animals on to the premises of origin has been of a calf less than 30 days old brought from the premises on which it was born or from other premises in the same sole occupancy group;
- (bb) the premises of origin are authorised to be used as a specialist calf rearing unit by a notice issued by a veterinary inspector, the National Assembly for Wales or the Secretary of State; and
- (cc) the cattle to be moved have been issued with cattle passports and tagged in accordance with the Cattle Identification Regulations;
- (xii) of an animal for direct export or to a collecting centre or assembly centre approved under regulation 12(2) of the Animal and Animal Products (Import and Export) (England and Wales) Regulations 2000(a) prior to such export;
- (xiii) of an animal which has been imported into the United Kingdom direct to any premises from its point of entry into the United Kingdom;
- (xiv) of an animal between land over which the owner or keeper of the animal has a registered right of common and-
- (aa) premises occupied by the owner or keeper of the animal and in relation to which the registered right of common is customarily exercised; or
- (bb) premises occupied by any other person who has a registered right of common over that land and in relation to which the registered right of common is customarily exercised;
- (xv) of an animal between premises occupied by the owner or keeper of the animal and in relation to which a registered right of common over land is customarily exercised and premises occupied by any other person who has a registered right of

(a) O.S. 2000/1673, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2000/2266, O.S. 2000/2524, O.S. 2000/2900 and 2000/3128 ac mewn perthynas â Chymru yn unig, O.S. 2002/1039.

(a) S.I. 2000/1673, as amended by S.I. 2000/2266, S.I. 2000/2524, S.I. 2000/2900 and 2000/3128 and as regards Wales only, S.I. 2002/1039.

gofrestredig i gomin dros y tir hwnnw ac y mae hawl gofrestredig i gomin y person arall hwnnw yn cael ei harfer fel rheol mewn perthynas ag ef;

(xvi) symudiad moch, gwartheg, neu ddefaid i ganolfan ffrwythloni artiffisial, ar yr amod, yn achos defaid, eu bod wedi'u hynysu yn ystod yr 20 diwrnod cyn y symudiad o bob anifail arall ar y safle tarddiad ac unrhyw safle sy'n gysylltiedig â hwy mewn grŵp meddiannaeth unigol;

(xvii) symudiad moch, defaid, geifr, gwartheg neu geirw i le ar gyfer triniaeth filfeddygol ar yr amod (ac eithrio yn achos moch) y bydd yr anifeiliaid yn cael eu hynysu oddi wrth bob anifail arall yno tra bydd y driniaeth yn cael ei chyflawni;

(xviii) symudiad tarw neu hwrdd neu garw o'r naill ryw neu'r llall, ac eithrio o farchnad, at ddibenion bridio, ar yr amod ei fod yn cael ei nodi, ei farcio neu ei dagio -

(aa) yn achos tarw yn unol â gofynion y Rheoliadau Adnabod Gwartheg;

(bb) yn achos hwrdd â rhif adnabod unigol; neu

(cc) yn achos carw yn unol â gofynion Gorchymyn Darfodedigaeth (Ceirw) 1989;

ac, yn achos hwrdd, ei fod wedi'i hynysu am yr 20 diwrnod cyn y symudiad oddi wrth bob anifail arall ar y safle tarddiad ac unrhyw safle arall sy'n gysylltiedig â hwy mewn grŵp meddiannaeth unigol ac ar yr amod pellach bod y perchennog neu'r ceidwad, yn union wedi i'r tarw, y carw neu'r hwrdd gyrraedd y safle y mae'n cael ei symud iddo, yn llofnodi datganiad ei fod am gael ei ddefnyddio at ddibenion bridio;

(xix) symudiad gafr o'r naill ryw neu'r llall, ac eithrio o farchnad, at ddibenion bridio os yw'r afr wedi'i dynodi â rhif adnabod unigol ar yr amod -

(aa) ei bod yn cael ei hynysu am yr 20 diwrnod cyn y symudiad oddi wrth bob anifail arall ar y safle tarddiad ac unrhyw safle arall yn yr un grŵp meddiannaeth unigol; neu

(bb) os yw wedi'i hynysu ar y safle tarddiad am lai na'r cyfnod hwnnw o 20 diwrnod, ei bod yn cael ei symud i safle arall lle'r oedd wedi'i hanfon o'r blaen at ddibenion bridio ac yr oedd wedi'i dychwelyd ohono cyn cael ei hynysu felly,

ac ar yr amod pellach bod datganiad yn cael ei lofnodi gan ei pherchennog neu ei cheidwad yn union ar ôl iddi gyrraedd y safle y mae'n cael ei symud iddo at ddibenion bridio;

common over that land and in relation to which the registered right of common of that other person is customarily exercised;

(xvi) of pigs, cattle, or sheep to an artificial insemination centre, provided, in the case of sheep, that they have been isolated for the 20 days preceding the movement from all other animals on the premises of origin and any other premises linked to them in a sole occupancy group;

(xvii) of pigs, sheep, goats, cattle or deer to a place for veterinary treatment provided (except in the case of pigs) that the animals will be isolated from all other animals there whilst the treatment is carried out;

(xviii) of a bull or ram or a deer of either sex, otherwise than from a market, for breeding purposes, provided it is identified, marked or tagged -

(aa) in the case of a bull in accordance with the requirements of the Cattle Identification Regulations;

(bb) in the case of a ram with an individual identification number; or

(cc) in the case of a deer in accordance with the requirements of the Tuberculosis (Deer) Order 1989;

and, in the case of a ram, has been isolated for the 20 days before the movement from all other animals on the premises of origin and any other premises linked to them in a sole occupancy group and provided further that immediately following the arrival of the bull, deer or ram at the premises to which it is moved, its owner or keeper signs a declaration that it is to be used for breeding purposes;

(xix) of a goat of either sex, otherwise than from a market, for breeding purposes where the goat is identified with an individual identification number provided -

(aa) it has been isolated for the 20 days before the movement from all other animals on the premises of origin and any other premises in the same sole occupancy group; or

(bb) if it has been isolated on the premises of origin for less than that 20 day period, it is moving to other premises where it had previously been sent for breeding purposes and from which it was returned immediately prior to being so isolated,

and provided further that a declaration is signed by its owner or keeper immediately following its arrival at the premises to which it is moved that the goat has been moved for breeding purposes;

(xx) symudiad defaid sy'n dychwelyd o safle y cawsant eu symud iddo ond er mwyn cymryd rhan mewn treial cŵn defaid yno; neu

(xxi) symudiad anifail sy'n cael ei symud i labordy er mwyn cynnal profion diagnostig i ddarganfod a oes clefyd wedi effeithio ar yr anifail neu a yw wedi bod yn agored i glefyd; neu

(c) os oes caniatâd yn datgymhwyso'r cyfnod segur wedi'i ddyroddi gan arolygydd milfeddygol mewn perthynas â'r symudiad.

(3) At ddibenion paragraff (1)(b) uchod rhaid peidio â rhoi unrhyw ystyriaeth i symudiad y canlynol i'r safle tarddiad neu safle arall yn yr un grwp meddiannaeth -

(a) mochyn

(i) sy'n cael ei ddychwelyd i'r safle hwnnw o le yr oedd wedi'i symud iddo ar gyfer bridio, canolfan ffrwythloni artiffisial neu le yr oedd wedi'i symud iddo ar gyfer triniaeth filfeddygol, ar yr amod ei fod wedi ei ynysu am 20 diwrnod ar ôl dyddiad ei ddychwelyd oddi wrth bob anifail arall; neu

(ii) os yw'r symudiad hwnnw yn symudiad y cyfeirir ato yn erthygl 8(3)(b) o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) 1995;

(b) anifail sy'n cael ei symud i'r safle hwnnw yn uniongyrchol o arddangosfa neu sioe ar yr amod -

(i) bod yr anifail yn cael ei ynysu yn unol â gofynion is-baragraff (2)(b)(x)(bb); a

(ii) bod presenoldeb yr anifail yn yr arddangosfa neu'r sioe wedi'i hysbysu i'r awdurdod lleol;

(c) tarw neu garw o'r naill ryw neu'r llall, ar yr amod nad yw wedi dod o farchnad, ei fod wedi'i nodi, wedi'i farcio neu wedi'i dagio -

(i) yn achos tarw yn unol â gofynion y Rheoliadau Adnabod Gwartheg;

(ii) yn achos carw yn unol â gofynion Gorchymyn Darfodedigaeth (Ceirw) 1989;

ac ar yr amod pellach bod y perchennog neu'r ceidwad, yn union wedi iddo gyrraedd, yn llofnodi datganiad ei fod wedi ei symud at ddibenion bridio;

(ch) hwrdd at ddibenion bridio a hwnnw'n un sydd heb ddod o farchnad ar yr amod -

(i) ei fod wedi'i ddynodi â rhif adnabod unigol;

(ii) bod datganiad ei fod wedi ei symud at ddibenion bridio yn cael ei lofnodi gan ei

(xx) of sheep returning from premises to which they were moved solely for the purposes of taking part in a sheep dog trial there; or

(xxi) of an animal being moved to a laboratory for diagnostic tests to be carried out to ascertain whether the animal is affected by or has been exposed to a disease; or

(c) if a permit disapplying the standstill period has been issued by a veterinary inspector in relation to the movement.

(3) For the purposes of paragraph (1)(b) no account shall be taken of the movement on to the premises of origin or other premises in the same sole occupancy group of -

(a) a pig-

(i) which is being returned to those premises from a place to which it had been moved for breeding, an artificial insemination centre or a place to which it had been moved for veterinary treatment provided it is isolated for 20 days after the date of its return from all other animals; or

(ii) where that movement is as referred to in article 8(3)(b) of the Pigs (Records, Identification, and Movement) Order 1995;

(b) an animal which is being moved to those premises direct from an exhibition or show provided that -

(i) the animal is isolated in accordance with the requirements of sub-paragraph (2)(b)(x)(bb); and

(ii) the attendance of the animal at that exhibition or show has been notified to the local authority;

(c) a bull or a deer of either sex for breeding purposes, provided it has not come from a market, has been identified, marked or tagged -

(i) in the case of a bull in accordance with the requirements of the Cattle Identification Regulations; or

(ii) in the case of a deer in accordance with the requirements of the Tuberculosis (Deer) Order 1989;

and provided further that its owner or keeper signs a declaration immediately after its arrival that it has been moved for breeding purposes;

(d) a ram for breeding purposes which has not come from a market provided -

(i) it has been identified with an individual identification number;

(ii) a declaration that it has been moved for breeding purposes is signed by its owner or

berchennog neu'i geidwad, yn union ar ôl iddo gyrraedd y safle hwnnw; a

- (iii) na symudwyd unrhyw anifeiliaid i'r safle y mae wedi dod ohono neu safle arall sy'n gysylltiedig â hwy mewn grŵp meddiannaeth unigol yn ystod y cyfnod o 20 diwrnod cyn y diwrnod symud neu fod yr hwrdd wedi'i ynysu yn ystod y cyfnod hwnnw oddi wrth bob anifail arall ar safle o'r fath;
- (d) gafr o'r naill ryw neu'r llall at ddibenion bridio nad yw wedi dod o farchnad, ac sydd wedi'i dynodi â marc adnabod unigol ar yr amod -
 - (i) nad oes unrhyw anifeiliaid wedi'u symud i'r safle y mae wedi dod ohono na safle arall sy'n gysylltiedig ag ef mewn grŵp meddiannaeth unigol yn ystod y cyfnod o 20 diwrnod cyn dyddiad y symudiad;
 - (ii) bod yr afr wedi'i hynysu drwy gydol y cyfnod hwnnw oddi wrth bob anifail arall ar safle o'r fath; neu
 - (iii) bod yr afr wedi'i hynysu oddi wrth bob anifail arall ar safle o'r fath ers iddi gael ei dychwelyd yno o'r safle tarddiad lai nag 20 diwrnod cyn hynny yn dilyn ymgais blaenorol i fridio,

ac ar yr amod pellach bod ei pherchennog neu ei cheidwad wedi llofnodi datganiad yn union ar ôl iddi gyrraedd y safle hwnnw fod yr afr wedi'i symud felly at ddibenion bridio;

(7) A notice issued under paragraph (5)(a) shall be served on the occupiers of each of the premises specified in the notice and a notice issued under paragraph (5)(b) shall be served on the person prohibited from moving animals thereunder and on the occupiers of any premises individually named on the notice.

(8) Paragraph (1) shall not apply in the case of a notice issued under article 3(10).

Change of occupation of premises affected by the provisions of this Order

7.-(1) Where, on the termination of his or her right of occupation of any premises, the owner of any animal on those premises is unable to remove it therefrom by reason of any restriction imposed by or under the foregoing provisions of this Order, the person entitled to the occupation of those premises on such termination shall -

- (a) afford the owner of that animal and any person authorised by him or her for the purpose, all such facilities as may be necessary for feeding, tending or otherwise using that animal (including selling it) as the owner may reasonably require; or
- (b) where the owner of that animal is unable or unwilling to avail himself or herself of such facilities, take all such steps as may be

angenrheidiol i sicrhau bod yr anifail yn cael ei fwydo'n iawn, yn cael gofal iawn ac yn cael ei gadw'n iawn.

(2) Bydd darpariaethau paragraff (1) uchod yn parhau i fod yn gymwys tan y bydd y cyfnod o 7 diwrnod o'r dyddiad y mae unrhyw gyfyngiad ar symud yr anifail oddi ar y safle yn peidio â bod yn gymwys yn dod i ben a bydd perchennog yr anifail yn agored i dalu i'r person sy'n rhoi unrhyw gyfleusterau neu sy'n bwydo'r anifail hwnnw, yn gofalu amdano neu fel arall yn ei gadw, yn unol â'r darpariaethau hynny, unrhyw symiau o ran tâl ac ad-daliad am dreuliau sy'n gyfiawn ac yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau.

Darpariaethau cyffredinol ynghylch trwyddedau

8.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i bob anifail sy'n cael ei symud o dan awdurdod trwydded a roddir o dan y Gorchymyn hwn -

- (a) cael ei gadw ar wahân drwy gydol y symudiad hwnnw i unrhyw anifail nad yw'n cael ei symud o dan awdurdod y drwydded honno;
- (b) cael ei symud ar hyd y llwybr mwyaf uniongyrchol i'r gyrchfan a bennir yn y drwydded yn unig, ac nid i unrhyw le arall, ac
- (c) rhaid i'r drwydded gyd-fynd ag ef drwy gydol y symudiad.

(2) Rhaid i'r person sy'n gyfrifol am unrhyw anifail y mae trwydded a ddyroddir o dan y Gorchymyn hwn yn ymwneud ag ef, os mynnir iddo wneud hynny gan gwnstabl neu arolygydd neu swyddog arall i Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol neu awdurdod lleol, ddangos y drwydded a chaniatáu i gopi neu ddarn ohoni gael ei gymryd, a rhaid iddo hefyd, os gofynnir iddo wneud hynny, roi ei enw a'i gyfeiriad.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4) a darpariaethau unrhyw drwydded a ddyroddir o dan y Gorchymyn hwn, sef darpariaethau sy'n gosod gofyniad croes ar y person sy'n symud yr anifeiliaid, rhaid i feddiannydd y safle y symudwyd yr anifeiliaid iddo o dan y drwydded honno -

- (a) sicrhau y rhoddir i'r meddiannydd neu i'w gynrychiolydd y drwydded y symudwyd yr anifeiliaid odani cyn caniatáu i'r anifeiliaid gael eu dadlwytho o'r cerbyd y maent wedi'u cludo arno;
- (b) anfon y drwydded honno ymlaen yn ddi-oed at yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am yr ardal y mae'r safle hwnnw wedi'i leoli ynddi ac, yn achos lladd-dy, darparu copi i'r llawfeddyg milfeddygol swyddogol a benodwyd ar gyfer y safle hwnnw;
- (c) cadw copi o'r drwydded honno am gyfnod o chwe mis a'i ddangos os bydd arolygydd yn gofyn amdano er mwyn ei archwilio;
- (ch) darparu cyfleusterau, cyfarpar a deunyddiau digonol ar gyfer unrhyw waith glanhau a

necessary to ensure that the animal is properly fed, tended and kept.

(2) The provisions of paragraph (1) shall continue to apply until the expiration of a period of 7 days from the date on which any restriction on the movement of the animal off the premises ceases to apply and the owner of the animal shall be liable to pay to the person who affords any facilities or feeds, tends or otherwise keeps that animal, in accordance with those provisions, such sums by way of remuneration and reimbursement of expenses as may be just and reasonable in all the circumstances.

General provisions as to licences

8.-(1) Subject to paragraph (4), every animal which is moved under the authority of a licence granted under this Order shall -

- (a) be kept separate throughout such movement from any animal which is not being moved under the authority of that licence;
- (b) be moved by the most direct route available to the place of destination specified in the licence only, and to no other place, and
- (c) be accompanied throughout the movement by the licence.

(2) The person in charge of any animal to which a licence issued under this Order relates shall, on demand made by a constable or by an inspector or other officer of the National Assembly for Wales, the Secretary of State or of a local authority, produce the licence, and allow a copy thereof or an extract therefrom to be taken, and shall also, if so required, furnish his or her name and address.

(3) Subject to paragraph (4) and the provisions of any licence issued under this Order imposing a contrary requirement on the person moving the animals, the occupier of premises to which animals are moved under that licence shall -

- (a) ensure that the occupier or his or her representative is given the licence under which they have been moved before allowing the animals to be unloaded from the vehicle on which they have been transported;
- (b) forward that licence without delay to the local authority responsible for the area in which those premises are situated and, in the case of a slaughterhouse, provide a copy to the official veterinary surgeon appointed for those premises;
- (c) retain a copy of that licence for a period of 6 months and produce it upon request for inspection by an inspector; and
- (d) provide adequate facilities, equipment and materials for any cleansing and disinfection

diheintio sy'n ofynnol yn ôl trwydded o dan y Gorchymyn hwn.

(4) Ni fydd darpariaethau paragraffau (1)(b) ac (c), (2) (i'r graddau y mae'n ymwneud â dangos a chopio trwydded) a (3)(a) i (c) yn gymwys mewn unrhyw achos pan fydd anifeiliaid yn cael eu symud o dan drwydded gyffredinol.

(5) Pan fydd arolygydd awdurdod lleol yn dyroddi trwydded o dan erthygl 3(1)(a), rhaid iddo gadw copi o'r drwydded am chwe mis.

Pwerau swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol ac arolygwyr awdurdodau lleol os bydd methiant

9.-(1) Os bydd unrhyw berson y mae trwydded, awdurdod, caniatâd neu hysbysiad a ddyroddir neu a gyflwynir o dan y Gorchymyn hwn yn methu â chydymffurfio â gofynion y drwydded, yr awdurdod, y caniatâd neu'r hysbysiad, caiff swyddog i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu arolygydd awdurdod lleol, heb ragfarnu unrhyw achos am dramgwydd sy'n codi o'r methiant hwnnw, gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â gofynion y drwydded, yr awdurdod, y caniatâd neu'r hysbysiad ac os methir â chydymffurfio â'r gofynion hynny bydd y swyddog neu'r arolygydd yn peri i'r gofynion hynny gael eu cyflawni.

(2) Bydd swm unrhyw dreuliau y mae swyddog i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu arolygydd awdurdod lleol yn mynd yn rhesymol iddynt wrth arfer unrhyw bŵer a roddwyd iddynt gan baragraff (1) uchod yn adferadwy fel dyled sifil pan fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r awdurdod lleol, yn ôl fel y digwydd, yn gofyn am y swm hwnnw oddi wrth y person sy'n methu â chydymffurfio.

Tramgwyddau

10.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), bydd yn dramgwydd o dan y Ddeddf i unrhyw berson sydd, heb awdurdod neu esgus cyfreithiol, a hwnnw'n awdurdod neu'n esgus y bydd rhaid iddo ei brofi -

(a) yn torri unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth mewn trwydded, awdurdod, caniatâd neu hysbysiad a ddyroddwyd neu a gyflwynwyd odani; neu

(b) yn achosi neu'n caniatáu unrhyw doriad neu ddiffyg cydymffurfedd o'r fath.

(2) Ni fydd paragraff (1) yn gymwys i hysbysiad a roddir o dan erthygl 3(10).

Yr Awdurdod Lleol i orfodi'r Gorchymyn

11.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn gael eu gweithredu a'u gofodi gan yr awdurdod lleol.

required by a licence under this Order.

(4) The provisions of paragraphs (1)(b) and (c), (2) (insofar as it relates to the production and copying of a licence) and (3)(a) to (c) shall not apply in any case where animals are moved under a general licence.

(5) Where an inspector of a local authority issues a licence under article 3(1)(a), he or she shall retain a copy of the licence for six months.

Powers of officers of the National Assembly for Wales, the Secretary of State and inspectors of local authorities in case of default

9.-(1) If any person to whom a licence, authority, permit or notice issued or served under this Order applies fails to comply with the requirements of that licence, authority, permit or notice, an officer of the National Assembly for Wales, the Secretary of State or an inspector of a local authority may, without prejudice to any proceedings for an offence arising out of such default, take all steps as may be necessary to ensure that the requirements of the licence, authority, permit or notice are complied with and in default of such compliance the officer or inspector will cause them to be carried out.

(2) The amount of any expenses reasonably incurred by an officer of the National Assembly for Wales, the Secretary of State or by an inspector of a local authority in the exercise of any power conferred by paragraph (1) shall be recoverable on demand as a civil debt by the National Assembly for Wales, the Secretary of State or by the local authority, as the case may be, from the person in default.

Offences

10.-(1) Subject to paragraph (2), it shall be an offence under the Act for any person without legal authority or excuse, proof of which shall lie on him or her -

(a) to contravene any provision of this Order or any provision of a licence, authority, permit or notice issued or served under it; or

(b) to cause or permit any such contravention or non compliance.

(2) Paragraph (1) shall not apply to a notice issued under article 3(10).

Local authority to enforce Order

11.-(1) Subject to paragraph (2) the provisions of this Order shall be executed and enforced by the local authority.

(2) Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyfarwyddo, mewn perthynas ag achosion o ddisgrifiad penodol, neu mewn perthynas ag achos penodol, naill ai bod rhaid i'r Gorchymyn hwn gael ei weithredu a'i orfodi ganddo ef ac nid gan yr awdurdod lleol neu fod rhaid i'r Gorchymyn hwn gael ei weithredu a'i orfodi ar y cyd ganddo ef a chan yr awdurdod lleol.

Dirymu Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002

12. Mae Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 yn cael ei ddirymu(a).

Diwygio Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002

13. Yn erthygl 1, paragraff (2) o Orchymyn Crynadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002(b) yn lle'r geiriau "1 Rhagfyr 2002" rhoddir y geiriau "1 Chwefror 2003".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(c)

am 2:30pm ar 4 Medi 2002

Y Gweinidog Dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

am 11:29 am ar 5 Medi 2002

Is-ysgrifennydd Gwladol,
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

(a) O.S. 2002/280 (W.32).
(b) O.S. 2002/283 (W.34).
(c) 1998 p.38.

(2) The National Assembly for Wales may direct, in relation to cases of a particular description, or in relation to a particular case, either that this Order shall be executed and enforced by it and not by the local authority or that this Order shall be executed and enforced jointly by it and by the local authority.

Revocation of the Disease Control (Interim Measures) (Wales) Order 2002

12. The Disease Control (Interim Measures) (Wales) Order 2002 is revoked(a).

Amendment of the Animal Gatherings (Interim Measures) (Wales) Order 2002

13. In article 1, paragraph (2) of the Animal Gatherings (Interim Measures) (Wales) Order 2002(b), for the words "1st December 2002", there shall be substituted the words "1st February 2003".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(c)

at 2:30pm on 4th September 2002

Jane Davidson

Minister for Education and Lifelong Learning

at 11:20 am on 5th September 2002

Whitty

Parliamentary Under-Secretary of State,
Department for Environment, Food and Rural Affairs

(a) S.I. 2002/280 (W.32).
(a) S.I. 2002/283 (W.34).
(b) 1998 c.38.

YR ATODLEN**SCHEDULE****RHAN I****PART I****Y GOFYNION SYDD I'W BODLONI GAN GYFLEUSTER YNYSU AR GYFER BRIDIO****REQUIREMENTS TO BE MET BY A BREEDING ISOLATION FACILITY**

1. Rhaid defnyddio'r cyfleuster ynysu ond er mwyn ynysu'r anifeiliaid sydd ynddo oddi wrth bob anifail arall ar y safle y mae'r cyfleuster wedi'i leoli arno.
 2. Rhaid i'r cyfleuster ynysu fod wedi'i ddylunio er mwyn sicrhau bod gwahaniad ffisgeol rhwng yr anifeiliaid sy'n cael eu cadw ynddo ac unrhyw anifeiliaid eraill ar y safle neu unrhyw safle cyffiniol arall ac yn benodol rhaid i'r cyfleuster gynnwys-
 - (a) adeilad ar wahân nad yw'n cael ei ddefnyddio ond er mwyn ynysu anifeiliaid oddi wrth unrhyw anifeiliaid eraill sy'n cael eu cadw ar y safle hefyd;
 - (b) rhan o adeilad sy'n cael ei ddefnyddio i'r perwyl hwnnw ac sydd wedi'i wahanu o'r llawr i'r nenfwd oddi wrth unrhyw ran arall o'r adeilad â phared solet neu adeiladwaith dros dro digonol (y caniateir ei ffurfio, yn ddarostyngedig i baragraff 3, o fêls gwellt) sydd wedi'i ddylunio yn y naill achos a'r llall i sicrhau -
 - (i) na fydd unrhyw lif aer sylweddol rhwng y cyfleuster ynysu ar gyfer bridio ac unrhyw ran arall o'r adeilad; a
 - (ii) na fydd unrhyw bosibilrwydd y bydd elifiant, tail nac unrhyw ollyngiad arall yn diferu drwy neu o dan y pared neu adeiladwaith dros dro arall; neu
 - (c) man pori ar wahân wedi'i amgylchynu â ffens gwrth-stoc ddiogel (y caniateir iddi gynnwys ffens drydan) neu atalfa arall y mae o leiaf 50 metr o bellter rhyngddi ac unrhyw fan pori neu adeilad arall lle mae anifeiliaid yn cael eu pori neu eu cadw ynghyd â chodi ffensys gwrth-stoc diogel pellach neu atalfeydd eraill mewn manau eraill ar y safle os yw hynny'n angenrheidiol i atal yr anifeiliaid eraill hynny rhag dod o fewn 50 metr i'r cyfleuster ynysu.
 3. Pan fydd adeiladwaith dros dro sydd wedi'i ffurfio o fêls gwellt yn cael ei ddefnyddio i wahanu â phared ran o adeilad sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfleuster ynysu oddi wrth unrhyw ran arall o'r adeilad nad yw'n cael ei ddefnyddio felly, rhaid i'r pared fod yn un metr o drwch o leiaf.
 4. Pan fydd adeilad neu ran o adeilad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cyfleuster ynysu, ni chaniateir i unrhyw anifail nad yw'n cael ei
1. The isolation facility shall be used solely for the purpose of isolating the animals therein from all other animals on the premises where it is located.
 2. The isolation facility must be designed so as to ensure physical separation at all times between the animals being kept therein and any other animals on the premises or any other adjoining premises and in particular must consist of -
 - (a) a separate building used solely for the purposes of isolating animals from any other animals also kept on the premises;
 - (b) part of a building used solely for such purposes and divided from floor to ceiling from any other part of the building by a solid partition or an adequate temporary structure (which, subject to paragraph 3, may be comprised of bales of straw) designed in each case to ensure that -
 - (i) there is no appreciable flow of air between the breeding isolation facility and any other part of the building; and
 - (ii) there is no possibility of seepage of any effluent, manure or other discharge through or under the partition or other temporary structure; or
 - (c) a separate pasture surrounded by a secure stockproof fence (which may include electrified fencing) or other barrier at least 50 metres in distance from any other pasture or building where animals are grazed or kept with further secure stockproof fences or other barriers being erected elsewhere on the premises where this is necessary to prevent those other animals coming within 50 metres of the isolation facility.
 3. Where a temporary structure comprised of bales of straw is used to partition part of a building used for an isolation facility from any other part of the building not being so used, the partition shall be of at least one metre in thickness.
 4. Where a building or part of a building is used for the isolation facility, no animal not being kept in the facility shall be permitted at any

- gadw yn y cyfleuster ddod o fewn pum metr i unrhyw ddrws neu fynedfa arall i'r cyfleuster ar unrhyw adeg.
5. Rhaid i bob drws sy'n fynedfa i unrhyw adeilad neu ran o adeilad sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y cyfleuster ynysu gael ei gadw ar gau ar bob adeg ac eithrio os yw'n cael ei ddefnyddio gan bersonau i fynd i mewn i'r cyfleuster neu i ymadael ag ef neu pan fydd anifeiliaid yn cael eu symud i mewn i'r cyfleuster neu allan ohono.
 6. Rhaid i loriau a waliau unrhyw adeilad neu ran o adeilad sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y cyfleuster ynysu fod yn gyflawn ac mewn cyflwr digon da i'w gwneud yn bosibl ei lanhau a'i ddiheintio'n drylwyr a rhaid iddynt gael eu cadw a'u cynnal mewn cyflwr felly bob amser.
 7. Pan fydd adeilad neu ran o adeilad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cyfleuster ynysu, bydd rhaid gwneud y naill neu'r llall o'r canlynol -
 - (a) rhaid dylunio a chynnal yr adeilad yn y fath fodd ag i sicrhau y gellir cadw unrhyw elifiant, tail neu ollyngiadau eraill o'r anifeiliaid sy'n cael eu lletya yno yn yr adeilad tan y bydd pob anifail wedi'i symud o'r cyfleuster; neu
 - (b) rhaid gwneud trefniadau digonol i sicrhau na fydd unrhyw ollyngiadau yn dod i gysylltiad ag unrhyw anifail nad yw'n cael ei letya yn y cyfleuster ar unrhyw adeg.
 8. Rhaid darparu ar gyfer y cyfleuster ynysu gyfleuster llwytho a dadlwytho un-pwrpas y mae'n rhaid ei lanhau a'i ddiheintio'n drylwyr gan ddefnyddio diheintydd a gymeradwyir ar ôl pob tro y mae'r cyfleuster llwytho a dadlwytho yn cael ei ddefnyddio.
 9. Rhaid i feddiannydd y safle y mae'r cyfleuster ynysu wedi'i leoli ynddo sicrhau -
 - (a) bod dillad ac esgidiau sy'n gorchuddio'r holl gorff yn cael eu darparu i'w defnyddio gan unrhyw un sy'n gweithio yn y cyfleuster ac ar gyfer unrhyw bersonau eraill sy'n mynd i mewn i'r cyfleuster; a
 - (b) bod y dillad hynny yn cael eu golchi'n drylwyr cyn caniatáu iddynt ddod i gysylltiad ag unrhyw anifeiliaid nad ydynt yn y cyfleuster neu gael eu defnyddio yn unman heblaw yn y cyfleuster a bod yr esgidiau hynny yn cael eu diheintio'n drylwyr gan unrhyw berson sy'n eu gwisgo wrth ymadael â'r cyfleuster.
 10. Rhaid i feddiannydd y safle lle mae'r cyfleuster ynysu -
 - (a) cynnal -
 - (i) baddon traed sy'n cynnwys diheintydd a gymeradwyir; a
- time to come within 5 metres of any door or other access to the facility.
5. All doors providing access to any building or part of a building used for the isolation facility shall be kept closed at all times except when being used by persons to enter or leave the facility or when animals are being moved into or out of the facility.
 6. The floors and walls of any building or part of a building used for the isolation facility shall be complete and in a sufficiently good condition to be capable of being thoroughly cleansed and disinfected and they shall at all times be kept and maintained in such a condition.
 7. Where a building or part of a building is used for the isolation facility then either -
 - (a) the building shall be so designed and maintained as to ensure that any effluent, manure or other discharges from the animals housed therein can be retained in the building until after all animals have been removed from the facility; or
 - (b) adequate arrangements shall be made to ensure that any such discharges at no point come into contact with any animal not being housed in the facility.
 8. The isolation facility shall be provided with a dedicated loading and unloading facility which shall be thoroughly cleansed and disinfected using an approved disinfectant after every use.
 9. The occupier of the premises in which the isolation facility is located shall ensure that -
 - (a) overall clothing and footwear is provided for the use of anyone working in the facility and for any other persons entering the facility; and
 - (b) such clothing is thoroughly laundered before being allowed to come into contact with any animals not in the facility or being used anywhere other than in the facility and such footwear is thoroughly disinfected by any person wearing it on leaving the facility;
 10. The occupier of the premises in which the isolation facility is located shall -
 - (a) maintain -
 - (i) a footbath containing an approved disinfectant; and

(ii) cyfleusterau golchi dwylo,

mewn mannau cyfleus wrth bob mynedfa i'r cyfleuster a phob allanfa ohono a rhaid iddo adnewyddu'r diheintydd yn y baddon traed bob dydd neu'n amlach na hynny yn ôl yr angen er mwyn cadw toddiant glân; a

- (b) sicrhau bod y baddon traed a'r cyfleusterau golchi dwylo yn cael eu defnyddio gan bawb sy'n mynd i mewn i'r cyfleuster ac yn ymadael ag ef.

11. Ni chaniateir symud o'r cyfleuster unrhyw fêls gwellt, sy'n cael eu defnyddio i ffurfio parwydydd yn y cyfleuster ynysu nac unrhyw ddeunyddiau porthi, porthiant neu sarn sydd yn eu lle yno ac sydd heb eu defnyddio, nes y bydd y llwyth hwnnw o anifeiliaid wedi ymadael â'r cyfleuster.

12. Ni chaniateir symud unrhyw gorlannau, clwydi nac offer arall sydd yn eu lle pan fydd unrhyw lwyth anifeiliaid yn mynd i mewn i'r cyfleuster ynysu o'r cyfleuster nes y bydd y llwyth hwnnw wedi ymadael â'r cyfleuster oni bai eu bod wedi'u glanhau a'u diheintio'n drylwyr gyntaf.

13. Cyn bod unrhyw gerbyd sydd wedi'i ddefnyddio at unrhyw ddiben yn y cyfleuster ynysu yn cael ei symud allan o'r cyfleuster, rhaid iddo gael ei lanhau a'i ddiheintio'n drylwyr yn unol â gofynion atodlen 1 i Orchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) 2001(a) ac yn ychwanegol, wrth yr allanfa i'r cyfleuster, rhaid glanhau a diheintio cylchedd cyfan teiars unrhyw gerbyd o'r fath (gan gynnwys eu gwadnau) ynghyd a'i fwâu olwynion, ei gardiau olwynion, a'i labedi llaid.

14. Mae cyfleusterau digonol ar gael naill o fewn y cyfleuster ynysu neu'n union y tu allan iddo i'r anifeiliaid gael eu harolygu neu eu harchwilio yn unol â gofynion paragraffau (3)(e)(vi) or (3)(f)(v) o erthygl 3 heb fod yr anifeiliaid hynny yn dod o fewn pum metr i unrhyw anifeiliaid eraill nad ydynt yn cael eu cadw yn y cyfleuster ynysu.

15. Rhaid i feddiannydd y safle lle mae'r cyfleuster ynysu wedi'i leoli sicrhau bod cofnod ysgrifenedig yn cael ei gadw ac yn cael ei roi ar gael i arolygydd os bydd yn gofyn amdano a bod y cofnod hwnnw yn dangos dyddiadau pob symudiad anifeiliaid i mewn i'r cyfleuster ynysu ac allan ohono ynghyd â manylion -

- (a) Marc S neu rifau adnabod unigol unrhyw hyrddod a symudwyd felly;
- (b) Marc S neu rifau adnabod unigol, os o gwbl, unrhyw famogiaid a symudwyd felly, neu os nad oes unrhyw dag S na rhif adnabod unigol wedi'i ddodi ar unrhyw famog, manylion y marc paent a ddodwyd arni yn unol ag erthygl 3(3)(e)(iii)(bb);

(ii) handwashing facilities,

at convenient places at every entrance to and exit from the facility and shall renew the disinfectant in the footbath daily or more frequently as necessary to maintain a clean solution; and

- (b) ensure that the footbath and handwashing facilities are used by all persons on entering and leaving the facility.

11. Any straw bales used as partitions in the isolation facility and any unused feeding stuffs, fodder or bedding in place there when any batch of animals enter the facility may not be removed from the facility until that batch of animals has left the facility.

12. No pens, hurdles or other equipment in place when any batch of animals enter the isolation facility may be removed from the facility until that batch has left the facility unless they are first thoroughly cleansed and disinfected.

13. Before any vehicle which has been used for any purpose in the isolation facility is moved out of the facility, it shall be thoroughly cleansed and disinfected in accordance with the requirements of Schedule 1 to the Transport of Animals (Cleansing and Disinfection) (Wales) Order 2001(a) and in addition, at the exit to the facility, the whole circumference of the tyres of any such vehicle (including their treads) together with its wheel arches, mudguards, and mudflaps shall be cleansed and disinfected.

14. Sufficient facilities are available either within or immediately outside the isolation facility for animals to be inspected or examined pursuant to the requirements of paragraphs (3)(g)(vi) or (3)(h)(v) of article 3 without those animals coming within 5 metres of any other animals not being kept in the isolation facility.

15. The occupier of the premises on which the isolation facility is situated shall ensure that a written record is maintained and made available on demand to an inspector showing the dates of all movements of animals into and out of the isolation facility together with details of -

- (a) the S Mark or individual identification numbers of any rams so moved;
- (b) the S Mark or individual identification numbers, if any, of any ewes so moved, or, if no S tag or individual identification number has been applied to any ewe details of the paint mark applied to it pursuant to article 3(3)(g)(iii)(bb);

- (c) unrhyw farc adnabod neu dag a ddodwyd ar unrhyw ddaifad yn unol â Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002;
 - (ch) manylion unrhyw farciau neu dagiau a ddodwyd ar unrhyw wartheg a symudwyd felly yn unol â'r Rheoliadau Adnabod Gwartheg; a
 - (d) manylion rhifau lot unrhyw anifeiliaid a brynwyd mewn marchnad.
- 16.** Ni chaniateir symud unrhyw anifail allan o'r cyfleuster ynysu yn ystod y cyfnod y mae'n ofynnol ei gadw yno yn unol ag is-baragraffau (3)(e) neu (f) o erthygl 3 oni bai -
- (a) ei fod yn cael ei symud, yn unol â thrwydded a ddyroddwyd gan arolygydd mifeddygol, i gyfleuster ynysu arall ar yr un safle y mae'r holl ofynion a bennir yn erthygl 3(8) yn cael eu bodloni a'u dilyn mewn perthynas ag ef;
 - (b) ei fod yn fuwch sy'n llaetha ac nad yw'n rhesymol ymarferol ei godro yn y cyfleuster ynysu ac sy'n cael ei symud i barlwr godro i gael ei godro yn unol â'r amodau a bennir ym mharagraff 17; neu
 - (c) bod hyn at ddibenion arolygu neu archwilio yn unol â pharagraffau (3)(e)(vi) or (3)(f)(v) o erthygl 3 ac os na chaniateir i unrhyw anifail nad yw'n cael ei gadw yn y cyfleuster ynysu ddod o fewn pum metr i'r anifail sy'm cael ei arolygu a'i archwilio felly.
- 17.** Yr amodau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 16(b) yw -
- (a) bod rhaid dod ag unrhyw fuwch yr eir â hi i'r parlwr godro o'r cyfleuster ynysu i'r parlwr hwnnw ar ôl i'r sesiwn godro ar gyfer buchod nad ydynt o'r cyfleuster gael ei gwblhau ac ar ôl i'r buchod eraill hynny gael eu dychwelyd i'w llety neu i'w man pori;
 - (b) bod pellter gwahanu o bum metr yn cael ei gadw bob amser rhwng y fuwch o'r cyfleuster ynysu ac unrhyw anifail arall nad yw'n cael ei gadw yn y cyfleuster ynysu hwnnw;
 - (c) bod rhaid golchi'r parlwr godro ac unrhyw iard neu fan gasglu sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag ef yn drylwyr ar ôl i'r fuwch o'r cyfleuster ynysu ddychwelyd yno a chyn y caniateir i unrhyw anifeiliaid eraill fynd i mewn i'r parlwr, i'r iard neu i'r man casglu hwnnw;
 - (ch) yn union ar ôl iddynt gael eu defnyddio gan y fuwch o'r cyfleuster ynysu a chyn iddynt gael eu defnyddio ar gyfer unrhyw fuwch
- (c) any other identification marking or tag applied to any sheep pursuant to the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (Wales) (No.2) Order 2002;
 - (d) details of any markings or tags applied to any cattle so moved in accordance with the Cattle Identification Regulations; and
 - (e) details of the lot numbers of any animals bought at a market.
- 16.** No animal may be moved out of the isolation facility during the period in which it is required to be kept there pursuant to sub-paragraphs (3)(g) or (h) of article 3 unless -
- (a) it is being moved, in accordance with a licence issued by a veterinary inspector, to another isolation facility on the same premises in respect of which all the requirements specified in article 3(8) are met and observed;
 - (b) it is a lactating cow which it is not reasonably practicable to milk in the isolation facility and which is being moved to a milking parlour to be milked in accordance with the conditions set out in paragraph 17; or
 - (c) this is for the purposes of inspection or examination pursuant to paragraphs (3)(g)(vi) or (3)(h)(v) of article 3 and no animal not being kept in the isolation facility is allowed to come within 5 metres of the animal being so inspected or examined.
- 17.** The conditions referred to in paragraph 16(b) are that -
- (a) any cow being brought to the milking parlour from the isolation facility must be brought there after the milking session for cows not from the facility has been completed and after those other cows have been returned to their accommodation or pasture;
 - (b) at all times a separation distance of 5 metres is maintained between the cow from the isolation facility and any other animal not being kept in that facility;
 - (c) the milking parlour and any yard or collecting area used in connection with it must be thoroughly washed down after the cow from the isolation facility has returned there and before any other animals are allowed to enter any such parlour, yard or collecting area;
 - (d) immediately after use by the cow from the isolation facility and before being used for any cow not from that facility any utensils

nad yw o'r cyfleuster hwnnw rhaid i unrhyw offer a ddefnyddiwyd ar gyfer godro, unrhyw gyfarpar godro mecanyddol ac unrhyw gynwysyddion sy'n dod i gysylltiad â llaeth gael eu glanhau a'u rinsio â dŵr yfadwy; a

- (d) rhaid dychwelyd unrhyw fowch y daethpwyd â hi i'r parlwr godro o'r cyfleuster i'w godro i'r cyfleuster yn union ar ôl cwblhau'r godro.

used for milking, any mechanical milking equipment and any containers which come into contact with milk shall be cleaned and rinsed with potable water; and

- (e) any cow brought to the milking parlour from the facility for milking must be returned to the facility immediately after milking has been completed.

Rhan II

Part II

**FFURF AR ADRODDIAD MILFEDDYG CYMWYSEDIG MEWN PERTHYNAS Â CHYFLEUSTER
YNYSU AR GYFER BRIDIO**

**FORM OF QUALIFIED VETERINARY SURGEON'S INSPECTION REPORT IN RELATION TO A
BREEDING ISOLATION FACILITY**

Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002

Disease Control (Interim Measures) (Wales) (No.2) Order 2002

**Adroddiad gan filfeddyg cymwysedig ar gyfleuster ynysu ar fferm sydd wedi'i fwriadu i'w ddefnyddio
gan ddefaid bridio a gwartheg bridio**

**Report by a qualified veterinary surgeon on an on farm isolation facility intended for use by breeding
sheep and breeding cattle**

R H A N / P A R T A	Adroddiad yw hwn ar gyfer: (ticiwch fel y bo'n briodol) This report is for: (tick as appropriate)	Cyfleuster ynysu awyr agored (h.y. cae neu grŵp o gaeau) <input type="checkbox"/> An outdoor isolation facility (i.e. field or group of fields) <input type="checkbox"/> Cyfleuster ynysu dan do (h.y. adeilad(au) neu ran o adeilad) <input type="checkbox"/> An indoor isolation facility (i.e. building(s) or part of a building)	<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>
		Ar gyfer defaid bridio/For breeding sheep <input type="checkbox"/> Ar gyfer gwartheg bridio/For breeding cattle <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>
	Rhif daliad/CPH: <input type="text"/> / <input type="text"/> / <input type="text"/>	Y cyfeiriad llawn (lle mae'r cyfleuster ynysu wedi'i leoli): Full address (where isolation facility is located):	
	Enw cyswllt yn y cyfeiriad/ Contact name at address:	Cod post/Postcode: <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/>	Rhif ffôn (y cyswllt) <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/>
	Phone no. (of contact): <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/>		

<p>R H A N / P A R T</p> <p>B</p> <p>1</p> <p>a w y r</p> <p>a g o r e d / o u t d o o r</p>	<p>Nifer y caeau yn y cyfleuster ynysu:</p> <p>Number of fields in isolation facility:</p>		<p>[GWNEWCH FRASLUN YN AWR O'R CYFLEUSTER A'I GYFFINIAU YN Y LLE GWAG DROSODD]</p> <p>[NOW MAKE A SKETCH OF THE FACILITY & SURROUNDING AREA IN THE SPACE OVERLEAF]</p>	<input type="checkbox"/>
---	--	--	--	--------------------------

	<p><i>Dim ond os cafodd yr amodau eu gwirio yn ystod yr arolygiad y dylech dicio'r blychau</i></p> <p><i>Tick boxes only if conditions were verified during inspection</i></p>	<p>Mae cae(au)'r cyfleuster ynysu wedi'i wahanu/wedi'u gwahanu'n ffisegol oddi wrth y caeau a'r adeiladau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer da byw eraill</p> <p>The field(s) of the isolation facility are physically separate from fields and buildings used for other livestock</p>	<input type="checkbox"/>
		<p>Mae gan derfyn allanol y cyfleuster ynysu ffens gwrth-stoc ddiogel</p> <p>The perimeter of the isolation facility has secure stock-proof fencing</p>	<input type="checkbox"/>
		<p>Mae yna ffens gwrth-stoc i atal da byw eraill rhag dod o fewn 50m o derfyn allanol y cyfleuster ynysu</p> <p>There is stock-proof fencing to prevent other livestock from coming within 50m of the perimeter of the isolation facility</p>	<input type="checkbox"/>
		<p>Mae gan y cyfleuster ynysu gyfleuster llwytho/dadlwytho un-pwrpas</p> <p>The isolation facility has a dedicated loading/off-loading facility</p>	<input type="checkbox"/>
		<p>Mae gan bob mynedfa i'r cyfleuster ynysu a phob allanfa ohoni faddonau traed â diheintydd a chyfleusterau golchi dwylo</p> <p>All entrances to and exits from the isolation facility have disinfectant footbaths and hand washing facilities</p>	<input type="checkbox"/>

R H A N / P A R T B 2 d a n d o / i n d o o r	Nifer y caeau yn y cyfleuster ynysu: Number of fields in isolation facility:		[GWNEWCH FRASLUN YN AWR O'R CYFLEUSTER A'I GYFFINIAU YN Y LLE GWAG DROSODD] [NOW MAKE A SKETCH OF THE FACILITY & SURROUNDING AREA IN THE SPACE OVERLEAF]	<input type="checkbox"/>
	<i>Dim ond os cafodd yr amodau eu gwirio yn ystod yr arolygiad y dylech dicio'r blychau</i> <i>Tick boxes only if conditions were verified during inspection</i>	Mae cyfleuster ynysu wedi'i wahanu'n ffresegol oddi wrth fannau eraill sy'n cael eu defnyddio ar gyfer da byw The isolation facility is physically separate from other areas used for livestock		<input type="checkbox"/>
		Mae gan y cyfleuster ynysu gyfleuster llwytho/dadlwytho un-pwrpas The isolation facility has a dedicated loading/off-loading facility		<input type="checkbox"/>

		<p>Mae lloriau a waliau'r cyfleuster ynysu yn gyflawn ac mewn cyflwr da fel bod modd eu glanhau a'u diheintio</p> <p>The floors and walls of the isolation facility are complete and in good condition so that they are capable of being cleaned and disinfected</p>	<input type="checkbox"/>
		<p>Mae'r adeilad wedi'i ddylunio fel bod unrhyw ollyngiadau o'r cyfleuster yn cael eu cadw yno neu'n cael eu gwaredu fel nad oes modd iddynt ddod i gysylltiad â da byw eraill</p> <p>The building is designed so that any discharges from the facility are retained there or disposed of so that they cannot come into contact with other livestock</p>	<input type="checkbox"/>
		<p>Mae gan bob mynedfa i'r cyfleuster ynysu a phob allanfa ohoni faddonau traed â diheintydd a chyfleusterau golchi dwylo</p> <p>All entrances to and exits from the isolation facility have disinfectant footbaths and hand washing facilities</p>	<input type="checkbox"/>

R H A N / P A R T C	Datganiad y milfeddyg: Veterinary surgeon's declaration:	Arolygais y cyfleuster ynysu I inspected the	<input type="checkbox"/> dan dô/ indoor / <input type="checkbox"/> awyr agored/ outdoor	uchod isolation facility above														
	ac a ddangosir ar y braslun amgaaedig ar and shown on the attached sketch on		/	/	200	ac yr wyf wedi gwirio bod y cyfleuster and have verified that the facility												
	yn cydymffurfio â'r amodau ar gyfer ynysu defaid a gwartheg bridio ar y fferm. Yr wyf wedi darparu i'r ceidwad complies with the conditions for on farm isolation of breeding sheep and cattle. I have supplied the keeper																	
	a ddisgrifir ar y ffurflen hon gopi o'r amodau described on this form with a copy of the conditions	<input type="checkbox"/> ac wedi'u darllen i'r ceidwad. and have read them to the keeper.																
	Enw'r Milfeddyg: <i>(printiwch yn glir)</i> Veterinary Surgeon's name: <i>(please print clearly)</i>			Llofnod: Signature:														
Dyddiad: Date:		/		/		Rhif ffôn: Telephone no.:												
<u>Stamp y practis milfeddygol:</u> <u>Stamp of veterinary practice:</u>																		

R
H
A
N
/
P
A
R
T

D

Datganiad y milfeddyg:
Keeper's declaration:

Yr wyf wedi darllen yr amodau ar gyfer ynysu defaid a gwartheg bridio ar y fferm (neu fe'u darllenwyd i mi) ac wedi'u deall

I have read (or had read to me) and understood the conditions for on farm isolation of breeding sheep and cattle.

Yr wyf yn datgan y bydd y cyfleusterau ynysu a ddisgrifwyd uchod ac ar y map bras amgaaedig yn cael eu rheoli gennyf yn unol â'r amodau.

I declare that the isolation facilities described above and on the attached sketch map will be managed by me in accordance with the conditions.

Enw'r ceidwad:
(printiwch yn glir)

Keeper's name:
(please print clearly)

Llofnod:

Signature:

Dyddiad: / /
Date:

Rhif ffôn:
Telephone no.:

